# DATBLYGU EICH BUSNES
## Rhagfyr 2016 – Chwefror 2017

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

### Sgôr RAG

**Coch: Dan y targed** **Oren: Bron â chyrraedd y targed** **Gwyrdd: Ar y trywydd iawn**

**Cyfanswm sydd wedi Cofrestru gyda Cyswllt Ffermio ers 1/10/205**


**6191** BUSNES a **12255** UNIGOLYN

### 1. Gwasanaeth Cynghori

Mae Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio yn darparu amrediad o gyngor cymorthdaledig, annibynnol a chyfrinachol ar gyfer:

- Busnesau Fferm a Choedwigaeth

Nifer y Ceisiadau a Gymeradwywyd




Mae'r tabl isod yn grynodeb o nifer y ceisiadau un-i-un ac ar sail grŵp a gymeradwywyd fesul categori.

| CYNGOR un-i-un wedi'i ariannu 80% hyd at gyfanswm o 1500 ewro | Dadansoddiad o'r ceisiadau a gymeradwywyd fesul categori |
|---|---|
| Cynllunio Busnes | 69 |
| Technegol – Glaswelltir a rheoli cnydau | 22 |
| Technegol – Rheolaeth a pherfformiad Da Byw | 9 |
| Arallgyfeirio technegol ac ychwanegu gwerth | 4 |
| CYFANSWM | 104 |

| CYNGOR AR SAIL GRŴP – wedi'i ariannu 100% hyd at uchafswm o 1500 ewro | Dadansoddiad o'r ceisiadau a gymeradwywyd fesul categori | Dadansoddiad o'r grwpiau a gymeradwywyd fesul categori |
|---|---|---|
| Glaswelltir Technegol | 104 | 28 |
| Da Byw Technegol | 6 | 1 |
| Cyngor Busnes – Mentrau ar y Cyd | 6 | 3 |
| CYFANSWM | 116 | 32 |


Llwybrau a gymerwyd i gael mynediad at Gyngor Technegol

**Llwybr 1**
Mae gen i Gynllun Busnes a gwblhawyd yn ystod y rhaglen Cyswllt Ffermio blaenorol (2007–2013)

**Llwybr 2**
Mae gen i Gynllun Busnes a drefnwyd yn breifat (nid drwy Cyswllt Ffermio) neu yr wyf wedi'i lunio fy hun


**Llwybr 3**
Rydw i eisiau cynhyrchu fy Nghynllun Busnes fy hun

**Llwybr 4**
Mae angen cefnogaeth y Gwasanaeth Cynghori arnaf er mwn cynhyrchu Cynllun Busnes




### Targed


Targed a gyflawnwyd vs Targed y Rhaglen




*Mae'r uchod yn dangos targedau blwyddyn 1 a 2

### Gwerthusiad Cwsmeriaid:

O ganlyniad i'r cyngor a dderbyniwyd, a ydych eisoes wedi neu a fyddwch yn gwneud newidiadau i'ch busnes?




**"Rydym yn fodlon iawn gyda'r cyngor a roddwyd gan ein cynghorydd. Yn ogystal â'r cymorth gyda'r cynllunio busnes, dangosodd hefyd empathi a dealltwriaeth tuag at ein mab sy'n cymryd ei gamau cyntaf i mewn i'r diwydiant ffermio."**

**"Roedd gan y cynghorydd ddealltwriaeth lawn o'n busnes ac o'r diwydiant llaeth. Gobeithio y byddwn yn gallu goresgyn y cyfnod anodd hwn yn y diwydiant llaeth."**

### 2. Cymorthfeydd un-i-un

Mae cymorthfeydd yn cynnig apwyntiad un-i-un awr o hyd gydag ymgynghorydd mewn lleoliadau penodol.

**Targed blynyddol = 60** **Targedau a gyflawnwyd = 63**

**24 Adolygiad Busnes Digidol**
**12 Cadw Cofnodion**
**8 Technoleg Gwybodaeth**
**7 Cyngor cyfreithiol Mentro**
**5 Olyniaeth**
**4 Marchnata ac Arallgyfeirio**
**3 Cynllunio**



### Adborth y diwydiant:

**96%** YN DWEUD BOD Y CYMORTHFEYDD YN DDA IAWN NEU'N ARDDERCHOG

**100%** WEDI DYSGU RHYWBETH NEWYDD

### Ffocws ar Gymorthfeydd Cadw Cofnodion:

Darparwyd y Cymorthfeydd Cadw Cofnodion gan y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm.

Mynychodd 62 busnes gan fanteisio ar apwyntiadau awr o hyd gydag aelod o'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm ac fe gawsant arweiniad yn ymwneud â gwaith papur Glastir, cofnodion da byw a meddyginiaeth, symudiadau stoc a Thaliadau Gwledig Cymru a'r Taliad Sylfaenol.




SGÔR ADBORTH AR GYFARTALEDD YN **97%**

**"Roeddwn i'n meddwl bod y gymhorthfa cadw cofnodion yn ddefnyddiol iawn, ac o ganlyniad, rwyf bellach yn deall yr hyn sydd angen ei wneud"**

## 3. Clinigau

Sesiynau un-i-un i dderbyn cyngor ac arweiniad yn benodol i'r busnes.

**Targed blynyddol = 21** **Targed a gyflawnwyd = 43**




### Adborth y diwydiant:

**95%** YN DWEUD BOD Y CLINIG YN DDA IAWN NEU'N ARDDERCHOG

**93%** WEDI DYSGU RHYWBETH NEWYDD

### Ffocws ar Glinigau Pridd a Glaswelltir:

Mae Cyswllt Ffermio wedi darparu cyfres o glinigau pridd a glaswelltir. Nod y clinigau oedd darparu cyngor a chefnogaeth wedi'i deilwra ar gyfer ffermwyr ynglŷn â rheoli eu priddoedd er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd effeithiol o wrtaith, tail a maetholion eraill megis calch.


Derbyniodd pob ffermwr a gymerodd ran samplau pridd am ddim; cyngor wedi'i deilwra a rhoddwyd dadansoddiad o'r canlyniadau gan ymgynghorydd.

> **"Roedd y clinig Pridd a Glaswelltir yn ddiddorol iawn ac yn llawn gwybodaeth. Rhoddodd drosolwg o gynllunio maeth y pridd gan ganolbwyntio ar ofynion gwrtaith caeau penodol a'r defnydd gorau posibl o dail fferm. Nid wyf wedi gwasgaru calch ar ein fferm ers pymtheg mlynedd o leiaf, ond ers i mi ddysgu sut mae lefelau pH eich caeau'n effeithio ar gymeriant maetholion eraill, byddaf yn bendant yn gwasgaru calch y Gwanwyn hwn."**

## 4. Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol…

…Sioeau teithiol ar gyfer sectorau penodol, digwyddiadau galw heibio a gweithdai.

**Targed blynyddol = 70** **Targed a gyflawnwyd = 37**




### Adborth y diwydiant:

**78%** YN DWEUD BOD Y DIGWYDDIADAU'N DDA IAWN NEU'N ARDDERCHOG

**97%** WEDI DYSGU RHYWBETH NEWYDD

### Ffocws ar Sgyrsiau Ymwybyddiaeth Strategol Maeth y Famog:

**John Vipond** yn cyflwyno'r canlynol yn ystod y digwyddiadau hyn:

- Maeth y famog – canolbwyntio ar fodloni gofynion y famog a sicrhau'r perfformiad gorau posibl gan yr ŵyn
- Lleihau colledion wrth ŵyna
- Rheoli mamogiaid sydd mewn cyflwr ar lefelau amrywiol
- Gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau a dyfir gartref

**215** O FYNYCHWYR

**98%** WEDI DYSGU RHYWBETH NEWYDD

> **"Roedd y cyfarfod hwn yn ddiddorol iawn ac roedd gan y siaradwr wybodaeth arbenigol ynglŷn ag ŵyna a ffermio cyffredinol – byddem yn bendant yn ei argymell i eraill."**



SGÔR ADBORTH AR GYFARTALEDD YN **93%**

### Fforwm Ffermwyr Cymru 2017… canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei reoli mewn diwydiant sy'n newid yn barhaus



Daeth y digwyddiad hwn â thros 140 o ffermwyr o bob cwr o Gymru ynghyd i edrych ar yr hyn y mae modd ei reoli mewn diwydiant sy'n newid yn gyson yn dilyn Brexit. Gyda diwrnod yn llawn siaradwyr deallus, adnabyddus a dylanwadol, y nod oedd sicrhau bod mynychwyr yn gadael y diwrnod yn llawn cymhelliant ac mewn gwell sefyllfa i allu rheoli newidiadau posib yn y dyfodol.

Cliciwch yma i weld uchafbwyntiau Fforwm Ffermwyr Cymru 2017.

## 5. Grwpiau Trafod


Mae grwpiau trafod Cyswllt Ffermio yn galluogi busnesau i ddysgu gan ei gilydd; trafod heriau; ystyried cyfleoedd ac o bosib i ganfod dulliau newydd a gwell o wneud pethau.

**73%** O'R GRWPIAU TRAFOD WEDI'U CREU HYD YN HYN YN ERBYN TARGED Y RHAGLEN

### *Canolbwyntio ar grŵp trafod defaid yng Ngogledd Cymru:

Mae'r grŵp yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar golledion ŵyna. Gan edrych yn ôl ar ganlyniadau 2014/15, roedd colledion ŵyna yn amrywio rhwng 8% a 23% o'r sganio hyd at werthu. Symbylodd hyn yr aelodau i edrych ar gofnodi'r prif resymau dros y colledion ŵyna a phryd yr oedd colledion yn digwydd gyda'u mamogiaid croes, mamogiaid Cymreig ac ŵyn benyw.

Mae'r canlyniadau sy'n dangos y prif golledion ŵyn ar gyfer eu mamogiaid a'u hŵyn benyw fel a ganlyn:




Yn dilyn trafodaethau grŵp, mae nifer o'r aelodau wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r modd y maent yn rheoli mamogiaid ac ŵyn benyw a byddant yn parhau i fonitro colledion ar gyfer 2017 gyda'r nod o leihau eu colledion ŵyn.

Cliciwch yma i ddarllen mwy am y grŵp trafod defaid hwn.

## 6. Mesur i Reoli

Mae Mesur i Reoli yn broses lle mae un busnes yn defnyddio ei ddata perfformiad (Ffisegol a/neu ariannol) i gymharu gyda busnes tebyg er mwyn adnabod meysydd lle gellir eu gwella. Mae adnodd Mesur i Reoli ar lein wedi cael ei ddatblygu ar gyfer ffermwyr Cig Coch a bydd ar gael yn fuan.

## 7. Gwefan Cyswllt Ffermio a'r Cyfryngau Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Nifer yr ymweliadau â thudalen unigol | 49,024 |
| Amser a dreulir ar y wefan ar gyfartaledd | 00:01:33 |
| Nifer y dilynwyr ar Twitter 28.02.2017 | 3,287 |
| Nifer yr hoffwyr ar Facebook 28.02.2017 | 5,411 |


Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government